

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

# **Yr Amgylchedd Hanesyddol (Archeoloeg)**



Canllawiau Cynllunio Atodol  
i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer  
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd 22 Mehefin 2011



**Parc Cenedlaethol  
Arfordir Penfro**  
**Pembrokeshire Coast  
National Park**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## **Yr Amgylchedd Hanesyddol (Archeoleg)**

Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu  
Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**Mabwysiadwyd 22 Mehefin 2011**

## Cynnwys

|                                                             |    |
|-------------------------------------------------------------|----|
| CRYNODEB                                                    | 3  |
| 1 Cyflwyniad                                                | 6  |
| Rhan 2 Fframweithiau Polisi Cenedlaethol                    | 9  |
| Rhan 3 Archeoleg a'r Broses Gynllunio                       | 12 |
| Manylion Cyswllt                                            | 17 |
| Rhan 4 Atodiad 1 Ystyriaethau wrth wneud Gwaith Archeolegol | 18 |
| Rhan 5 Atodiad 2 Cyngor technegol                           | 23 |
| Llyfryddiaeth Ddethol                                       | 30 |
| Geirfa                                                      | 31 |

## Paratowyd gan

YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED CYF

Neuadd y Sir, Heol Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gâr, SA19 6AF

Rhif Ffôn: Ymholiadau Cyffredinol 01558 823121 Ffacs 01558 823133 Gwefan

[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)

## CRYNODEB

### Archeoleg Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- i. Mae treftadaeth archeolegol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP) yn ffrwyth gweithgarwch dynol dros filoedd o flynyddoedd, a chaiff ei chydabod fel adnodd sydd o werth diwylliannol a chymdeithasol unigryw.
- ii. Mae tirwedd hanesyddol y Parc yn eithriadol o gyfoethog ac amrywiol. Mae'n cynnwys trefi, pentrefi a phentrefannau, ynghyd â'r holl lwybrau sy'n eu cysylltu â'r caeau a'r diwydiannau a ddarparai fywoliaeth y bobl a oedd yn byw yno. Mae'n dwyn olion cred pobl, eu difyrrwch a'u hamdden a'u gweithgareddau beunyddiol. Mae'n ffynhonnell hunaniaeth genedlaethol ac yn cynnig naws am le i gymunedau lleol. Gellir gweld henebion o Gynhanes, Rhufeinig, canoloesol ac, yn fwy diweddar, rhai diwydiannol, ac maen nhw'n nodweddion o'r dirwedd a drysorir. Gorwedd safleoedd eraill eto, sydd yr un mor bwysig, wedi eu claddu neu heb eu darganfod. Mae gan bob un rhan bwysig i'w chwarae mewn addysg, hamdden a thwristiaeth. Ond, maen nhw'n feidrol, yn agored i niwed gan ddatblygiadau modern ac nid oes modd eu cael yn ôl unwaith fyddan nhw wedi mynd.

### Sut caiff safleoedd archeolegol eu gwarchod?

- iii. Yn PCAP mae dros 280 o safleoedd yn cael amddiffyniad statudol ar hyn o bryd fel henebion cofrestredig o dan Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979. Mae'n drosedd gwneud unrhyw waith arnynt heb ganiatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru. Os yw ceisiadau cynllunio yn effeithio ar safleoedd cofrestredig neu eu lleoliadau, rhaid cysylltu â Cadw.
- iv. Mae dros 7,000 o safleoedd archeolegol a'u lleoliadau, sydd heb fod yn henebion cofrestredig, wedi eu cofnodi yng Nghofnod rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol ac maen nhw'n cael eu hamddiffyn gan y broses gynllunio, gyda rhagdybiaeth o blaid gwarchod safleoedd archeolegol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar y safle. Nodir canllawiau Llywodraeth Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 3 a Chylchlythron y Swyddfa Gymreig 60/96 a 61/96. Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddatblygwyr i ystyried effaith eu cynigion ar archeoleg.
- v. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â'r allwedd i amddiffyn safleoedd archeolegol, ac mae'n gweithio'n agos gydag ymgeiswyr ac Ymddiriedolaeth Archeolegol ranbarthol Cymru.

### O ble fedra i gael gwybodaeth a chynghor ar gam cynnar?

- vi. Ceir gwybodaeth fanwl ar archeoleg Sir Benfro yng Nghofnod rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol, ac mae ar gael ar gais gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed.
- vii. Cynghorir ymgynghoriad cynnar, oherwydd yr adeg orau i gymodi anghenion datblygu a gwarchod archeolegol yw'r cam cynnar. Er eu budd eu hunain, anogir ymgeiswyr i asesu effaith eu cynigion ar safleoedd archeolegol trwy ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn ystod y camau cyn cyflwyno cais cynllunio. Gydag arweiniad gwybodaeth a chynghor, gellir paratoi cynlluniau sympathegig, gyda'r

nod o amddiffyn buddiannau archeolegol heb ddwyn costau uchel ar gyfer gwaith archeolegol.


### **Beth sy'n digwydd cyn penderfynu ar gais cynllunio**

- viii. Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd archeolegol proffesiynol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP), yn cael gwybod am bob cais cynllunio a gyflwynir yn PCAP, ac yn cynnig argymhellion priodol.
- ix. Mae APCAP yn disgwyl i gynigion ystyried archeoleg, ac efallai y bydd yn gofyn am wybodaeth ychwanegol i gefnogi cais cynllunio. Heb yr wybodaeth bellach hon, efallai y bydd yn argymhell gohirio cais cynllunio neu ei wrthod.
- x. Gellir darparu'r wybodaeth ychwanegol hon ar ffurf asesiad pen bwrdd a/neu werthusiad maes archeolegol (ffos brawf), a allai hefyd gynnwys arolwg geoffisegol. Dylid gwneud y gwaith hwn yn ôl briff penodol, a geir fel arfer gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed ar ran APCAP. Fe fydd y gwaith yma'n pennu natur yr archeoleg a'i arwyddocâd ac fe allai gynnwys cynigion sydd wedi eu cynllunio i amddiffyn buddiannau archeolegol tra'n caniatáu'r datblygiad.

### **Beth sy'n digwydd yn dilyn penderfyniad ar gais cynllunio?**

- xi. Unwaith fydd APCAP wedi cael digon o wybodaeth, fe fydd yn gallu penderfynu ar y cais cynllunio. Gellir ei ganiatáu heb amodau yn ymwneud ag archeoleg neu gydag amodau, neu ei wrthod.
- xii. Nid yw datblygiadau sy'n cael effaith ddifrifol ar olion archeolegol sy'n bwysig yn genedlaethol, yn debygol o gael caniatâd cynllunio. Ar gyfer nodweddion archeolegol llai pwysig, efallai y rhoddir caniatâd tra bod strategaethau mewn lle i archwilio a chofnodi cyn datblygu. Ble nad yw'r olion yn hysbys, ond mae yna amheuaeth fod olion yno, efallai y bydd yr Awdurdod angen cynnal Gorchwyl Gwylio archeolegol fel rhan o'r datblygiad.
- xiii. Weithiau gellir dod o hyd i olion annisgwyl yn ystod datblygiad. Er mwyn cwrdd â'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, dylai datblygwyr gyflwyno trefniadau wrth gefn, ac fe allant ystyried cael yswiriant yn erbyn hyn.

## ARCHAEOLOGY AND YOUR PLANNING APPLICATION



# 1 Cyflwyniad

Ym Medi 2010 mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (dyddiad terfyn 2021) gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ac mae'n cymryd lle darpariaethau'r Cydgynllun Datblygu Unedol ar gyfer Sir Benfro 2000-2016. Trwy gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ystyried polisiau cenedlaethol fel y ceir ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 3 (Gorffennaf 2010), sy'n cynnwys datganiadau polisi clir polisiau rheoli datblygiad cenedlaethol. Nid yw'r polisiau sydd wedi eu cynnwys yn y ddogfen genedlaethol hon yn cael eu hailadrodd yn y Cynllun Datblygu Lleol, ac mae'n darparu'r fframwaith polisi ar gyfer materion o natur leol unigryw.

## 1.1 Diben y canllawiau hyn

Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond pan gânt eu mabwysiadu bydd ganddynt ddylanwad sylweddol wrth benderfynu p'un ai y gellir rhoi caniatâd cynllunio i gais ai peidio. Mae yna adroddiad ar yr ymgynghoriadau, sy'n nodi sut ymgynghorwyd ar y Canllawiau, ar gael i'w ddarllen ar wefan yr Awdurdod .

Mae'r canllawiau atodol (CCA) hyn yn darparu gwybodaeth fanwl ynghylch sut fydd ceisiadau cynllunio sy'n cael effaith ar archeoleg ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael eu trafod, ac ar y ffordd y bydd polisiau'r Cynllun Datblygu'n cael eu defnyddio.

Bwriedir i'r Canllawiau hyn helpu pob ymgeisydd sy'n ceisio cael caniatâd cynllunio, waeth a yw'r datblygiad a gynigir ganddynt ar raddfa fawr neu fach. Disgwylir i ddatblygwyr dalu costau gwaith archeolegol, ac felly fe fydd y ddogfen hon yn helpu arwain y rheiny sydd ddim yn arbenigwyr trwy'r gweithdrefnau cynllunio a'r gwaith archeolegol y gallai fod ei angen. Ceir gwybodaeth ar ffynonellau gwybodaeth a chyngor arbenigol a sut i sicrhau gwasanaethau contractwyr archeolegol proffesiynol. Darperir llyfryddiaeth a geirfa dethol, i helpu gyda therminoleg dechnegol.

Paratowyd y ddogfen ganllaw hon mewn ymgynghoriad ag Isadran Rheoli Treftadaeth Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, cynghorwyr proffesiynol yr Awdurdod ar faterion sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol. Fe fydd y canllawiau hyn hefyd yn destun ymgynghoriad ac fe fydd Adroddiad ar gael ar yr Ymgynghoriad.

## Trefn y Ddogfen

Rhennir y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn dair rhan:

Mae Rhan 1 yn esbonio'r sefyllfa leol mewn perthynas â PCAP

Mae Rhan 2 yn nodi'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol

Mae Rhan 3 yn rhoi canllawiau cyffredinol ar faterion a gweithdrefnau sydd eu hangen i weithredu'r polisiau.

Yn yr atodiadau, ceir cyngor mwy manwl ar faterion technegol amrywiol sy'n ymwneud ag archeoleg yn y broses gynllunio. Mae hefyd yn cynnwys Rhestr o Gysylltiadau Defnyddiol a geirfa.

### 1.3 Polisi'r Cynllun Datblygu Lleol

Mae Polisi Strategaeth 8 'Nodweddion Arbennig' y Cynllun Datblygu Lleol yn gofyn am warchod a gwella nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ymhlith y nodweddion hyn a gydnabyddir, mae'r Amgylchedd Hanesyddol. Mae Polisi 8d yn gofyn am **'amddiffyn yr Amgylchedd Hanesyddol a, ble'n bosib, ei wella'**. Ceir gwybodaeth bellach ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn adran 4.69 a 4.70. Mae Polisi 13 yn cyfeirio at amddiffyn tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol.

Polisi pellach i amddiffyn adeiladau sy'n bwysig yn lleol ond sydd heb eu dynodi yn adeiladau rhestredig:

#### Polisi 14 Amddiffyn Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol

**Caniateir datblygiad sy'n effeithio ar adeiladau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at gymeriad a diddordeb yr ardal leol, ble na fyddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar ymddangosiad nodedig, cywirdeb pensaernïol na lleoliad yr adeilad.**

### 1.4 Beth yw ystyr yr Amgylchedd Hanesyddol

Mewn diffiniad, disgrifiwyd yr Amgylchedd Hanesyddol fel a ganlyn:

*Mae'r gorffennol o'n cwmpas ym mhob man. Rydyn ni'n byw ein bywydau yn erbyn cefndir cyfoethog a ffurfiwyd gan adeiladau a thirweddau hanesyddol a nodweddion ffisegol eraill o'n gorffennol sydd wedi goroesi, waeth a ydyn ni'n gwybod hynny ai peidio. Ond, mae'r Amgylchedd Hanesyddol yn fwy na dim ond olion ffisegol. Mae'n ganolog i'r ffordd yr ydyn ni'n ein gweld ein hunain ac i'n hunaniaeth fel unigolion, cymunedau a chenedl. Mae'n gofnod ffisegol o'n gwlad, sut y daeth i fod, ei llwyddiannau a'i methiannau. Mae'n gasgliad o atgofion, sydd â straeon di-ben-draw, rhai hynafol a rhai diweddar: straeon wedi eu cerfio mewn carreg, briciau, pren, gwydr, dur; straeon wedi eu harysgrifennu ar batrymau caeau, mewn cloddiau ar dirweddau wedi eu dylunio ac yn nodweddion eraill y dirwedd. [The Historical Environment: A Force for Our Future. DCMS 2001]*

### 1.5 Amgylchedd Hanesyddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae Amgylchedd Hanesyddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cwmpasu'r holl olion ffisegol hynny y mae ein cyndeidiau wedi eu creu ar dir ac arfordir. Mae'n amrywio o dirweddau hanesyddol, parciau a gerddi, patrymau cae a thramwyfeydd nodedig, i anheddau hanesyddol, adeiladau traddodiadol, henebion a safleoedd archeolegol claddedig. Mae'n atgof parhaus o weithgarwch dyn yn y gorffennol, yn ffynhonnell mwynhad ac addysg ac yn cyfuno gydag amgylchedd a chynefinoedd y Parc Cenedlaethol i roi naws unigryw am le, ysbrydoliaeth feunyddiol ac ased pwysig ar gyfer y dyfodol.

Yng Nghofnod yr Amgylchedd Hanesyddol ar gyfer y Parc, mae yna wybodaeth ar dros 7000 o safleoedd archeolegol, dros 280 ohonynt wedi eu dynodi yn henebion cofrestredig sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae hyn yn cynrychioli miloedd o

flynyddoedd o weithgarwch dynol, yn dyddio o'r anheddiad dynol cynharaf mewn ogofau i nodweddion o'r Ail Ryfel Byd.

Mae'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru (a gynhelir gan Cadw, Cyngor Rhyngwladol Henebion a Safleoedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru) yn cynnwys pedair ardal yn y Parc Cenedlaethol: Preseli, Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi, Ynys Sgomer a Dyfrffordd Aberdaugleddau. Mae'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru'n rhestru pum tirwedd hanesyddol bellach yn y Parc Cenedlaethol: Trefdraeth a Charningli, Pen-caer, Tyrchfeydd Ystagbwl, rhan o Ddyffryn Teifi Isaf a Maenorbŷr. (gweler hefyd Atodiad 1, Adran 4.7).

Ym marn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae gan Amgylchedd Hanesyddol y Parc werth uchel, nid yn unig o ran ei etifeddiaeth hanesyddol ac archeolegol gyfoethog, ond hefyd yn y manteision y mae'n eu cyflwyno heddiw ac y bydd yn eu cyflwyno yn y dyfodol. Mae'n cyfrannu'n sylweddol at ein bywydau modern, gan roi naws am le i ni ac ysbrydoliaeth o ddydd i ddydd. Mae hefyd yn denu ymwelwyr gan ddod â manteision economaidd mwy a mwy pwysig i'r sir. Yn ddiweddar, cyfrifwyd gwerth Amgylchedd Hanesyddol Cymru, yn ei gyfanrwydd, fel cyfanswm effaith gwario o £780 miliwn y flwyddyn, ac mae'n cefnogi cyfanswm o 22,500 o swyddi. Mae APCAP yn cydnabod cyfraniad yr asedau hanesyddol amhrisiadwy hyn at ein cymunedau, ac mae'n cefnogi'r ddealltwriaeth ohonynt, a'u hamddiffyniad yn y dyfodol, yn weithgar ac mewn ffordd gynaliadwy.

Yn ôl unrhyw safonau, mae etifeddiaeth hanesyddol ac archeolegol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn eithriadol. O fewn y dirwedd, mae yna dystiolaeth o arferion ffermio a choedwigaeth gynnar, anheddau a ffermydd gwasgaredig, ecsploetio mwynau, concwest filwrol, crefydd a chyfathrebu. Mae'r sir yn frith o safleoedd archeolegol pwysig o bob cyfnod, yn amrywio o safleoedd ogofau Paleolithig a henebion claddu a defodol a bryngaerau o'r cyfnodau cynhanesyddol, i'r cestyll Canoloesol, safleoedd mynachaid ac anheddau cnewyllog ac olion diwydiannol a milwrol ôl-ganoloesol.

Mae'r holl safleoedd hyn yn bwysig ynddynt eu hunain ond hefyd ar gyfer eu cyfraniad parhaus at ein ffordd o fyw. Trwy brosesau'r system gynllunio defnydd tir, fe fydd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn diogelu ein Hamgylchedd Hanesyddol ac yn sicrhau nad yw safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol ac archeolegol yn cael eu difrodi na'u difetha'n ddiangen. Mae'r Canllawiau Atodol hyn ar gyfer Archeoleg yn darparu gwybodaeth fanwl ar sut fydd yr awdurdod cynllunio yn cwrdd â pholisïau'r Cyngor ar yr Amgylchedd Hanesyddol.

## Rhan 2 Fframweithiau Polisi Cenedlaethol

- 2.1 Yn y Deyrnas Unedig, caiff y gwaith o amddiffyn henebion ac olion archeolegol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, ei lywodraethu'n statudol o dan ddarpariaethau **Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979**. Yng Nghymru, mae Cadw, ar ran Llywodraeth Cymru, yn cynnal cofrestr o safleoedd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol ac mae'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys a'u hamddiffyn yn rhai llym. Mae'n drosedd i ddymchwel, difrodi, newid neu ollwng unrhyw beth ar y safleoedd cofrestredig hyn, heb ganiatâd ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, trwy Cadw, Cyfarwyddiaeth sy'n rhan o'r Cynulliad.
- 2.2 Mae hefyd yn angenrheidiol amddiffyn olion archeolegol neu henebion eraill sydd heb eu cofrestru, ac sydd efallai o bwysigrwydd cenedlaethol neu ranbarthol, o dan ddeddfwriaeth y Llywodraeth, yn benodol darpariaethau **Deddfau Cynllunio Gwlad a Thref** a'r fframwaith polisi cynllunio yng Nghymru. Yn Sir Benfro, mae'r safleoedd hanesyddol hyn wedi eu nodi'n swyddogol yng nghronfa ddata Cofnod rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, ac maen nhw wedi cael eu mabwysiadu trwy benderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro at ddibenion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir) 1995.
- 2.3 Ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau (a restrir yn Atodlenni 1 a 2 **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 1988**, fel y diwygiwyd) efallai y bydd angen asesiad o effeithiau amgylcheddol. Ble mae angen asesiad o effeithiau amgylcheddol, rhaid i'r datblygwr ddarparu asesiad amgylcheddol yn nodi'r wybodaeth a nodwyd yn Atodlen 3 y Rheoliadau ynghylch y safle, ac effeithiau tebygol o bwys y datblygiad a gynigir ar yr amgylchedd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag effeithiau sylweddol ar asedau o bwys a'r dreftadaeth ddiwylliannol, fel nodweddion archeolegol ac arteffactau dynol eraill, a'r mesurau a ragwelir i osgoi, gostwng neu gywiro unrhyw effeithiau niweidiol.
- 2.4 Mae **Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 3 Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2010)**, yn rhoi cyd-destun trosfwaol ar gyfer polisiau cynllunio defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru, ac mae'n rhoi canllawiau gan y llywodraeth ar warchod yr Amgylchedd Hanesyddol (Pennod 6). Mae'n nodi:

*"Mae'n bwysig fod yr Amgylchedd Hanesyddol – sy'n cwmpasu archeoleg a henebion, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol – yn cael eu hamddiffyn."* [Paragraff 6.1.1]

*"Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ran bwysig i'w chwarae wrth sicrhau y caiff yr Amgylchedd Hanesyddol ei warchod, tra'n sicrhau ei fod yn ateb gofynion anghenion heddiw ac yn parhau i ymateb iddynt."* [Paragraff 6.1.2]

*"Mae natur ddymunol gwarchod heneb a'i lleoliad yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, waeth a ydyw'n heneb gofrestredig ai peidio."* [Paragraff 6.5.1]

**2.5 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96- Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg.** Dyma ddogfen bolisi allweddol Llywodraeth Cymru sy'n darparu canllawiau manwl ar drafod archeoleg yn y system gynllunio defnydd tir gyfreithiol yng Nghymru. Argymhellir bod ymgeiswyr sy'n ceisio cael caniatâd cynllunio yn cael cyngor ar gam cynnar, i weld a fyddai eu cynnig â dimensiwn

archeolegol (gweler isod - ceisio cyngor ar gam cynnar tud 14) ac yn cyfeirio at y ddogfen bwysig hon.

Dyma brif ddarpariaethau Cylchlythyr 60/96 – *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg*:

*“Mae olion archeolegol yn adnoddau meidrol ac anadnewyddadwy, ac mewn llawer o achosion maent yn fregus iawn ac yn agored i niwed a difrod.”* [Adran 3]

*“Mae natur ddymunol gwarchod heneb a'i lleoliad yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, waeth a ydyw'n heneb gofrestredig ai peidio.”* [Adran 10]

Dylai datblygwyr arfaethedig ystyried y potensial ar gyfer olion archeolegol ar unrhyw safle datblygu arfaethedig, trwy ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Archeolegol ranbarthol.

Ble mae yna botensial i ddatblygiad gael effaith ar olion archeolegol, dylid cyflwyno canlyniadau arfarniadau archeolegol, asesiadau pen bwrdd a/neu werthusiadau maes, sy'n helpu diffinio cymeriad a graddau olion archeolegol sy'n bodoli yn yr ardal, fel rhan o unrhyw gais am ganiatâd cynllunio.

*“Rhaid asesu'r achos dros warchod olion archeolegol ar sail rhinweddau unigol pob achos, gan ystyried y polisiau archeolegol mewn cynlluniau datblygu, ynghyd â phob polisi perthnasol arall ac ystyriaeth o bwys, gan gynnwys pwysigrwydd cynhenid yr olion, a phwyso a mesur y rhain yn erbyn yr angen am y datblygiad arfaethedig.”* [Adran 16]

*“Ble mae olion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol, waeth a ydyn nhw'n gofrestredig ai peidio, ac mae datblygiad arfaethedig yn effeithio ar eu lleoliad, dylai fod rhagdybiaeth o blaid eu gwarchod yn ffisegol ar y safle.”* [Adran 17].

*“O safbwynt archeolegol, dylid ystyried cloddio [h.y. gwarchod trwy gofnodi] fel yr opsiwn ail orau ... Mae cloddio'n gallu bod yn ddrud ac yn gallu cymryd amser... Felly teimlir mai gwarchod olion archeolegol pwysig ar y safle yw'r opsiwn orau.”* (Adran 19)

Er mwyn sicrhau gwarchodaeth trwy gofnodi, mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu rhoi caniatâd yn amodol ar ddarpariaeth ar gyfer archwilio a chofnodi olion cyn dechrau ar y datblygiad.

*“Dylid cynnal archwiliadau archeolegol, fel cloddio a chofnodi, cyn dechrau ar y datblygiad, gan weithio i friff a baratowyd ar gyfer y prosiect gan yr awdurdod cynllunio (gyda chyfeiriad at eu cynghorwyr archeolegol)”*. [Adran 20]

Polisi Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw sicrhau amddiffyniad archeolegol a, ble'n bosib, gwelliant, yn unol ag egwyddorion a gofynion manwl Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96.

## **2.6 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth**

Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 yw dogfen bolisi allweddol Llywodraeth Cymru sy'n darparu canllawiau manwl ar drafod adeiladau hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth yn y system gynllunio defnydd tir gyfreithiol yng Nghymru.

*"Mae rhai adeiladau hanesyddol yn henebion cofrestredig (gweler paragraff 65), ac mae llawer sydd ddim yn rhai cofrestredig naill ai o werth archeolegol cynhenid neu'n sefyll ar dir sydd ag olion archeolegol. Mae'n bwysig, mewn achosion o'r fath, cynnal asesiad priodol o oblygiadau archeolegol cynigion datblygu cyn penderfynu ar geisiadau a, ble bydd caniatâd yn cael ei roi, dylai'r awdurdodau ystyried p'un ai y gwnaed trefniadau digonol ar gyfer cofnodi olion a fyddai'n cael eu colli yn ystod unrhyw waith y mae'r caniatâd yn gysylltiedig ag ef. Ceir cyngor pellach ar archeoleg yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96" (Adran 10).*

Mae hefyd yn cynnwys adrannau yn ymwneud â thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig (Adran 16).

*"Gofynnir i awdurdodau cynllunio ystyried hyn wrth baratoi cynlluniau lleol ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â chynlluniau heolydd, a fyddai'n effeithio ar barciau a gerddi cofrestredig a'u lleoliadau (gweler hefyd Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 29/95 Atodiad B) neu ble mae'r datblygiad arfaethedig o ddigon o raddfa i gael effaith fwy nag effaith leol ar y dirwedd hanesyddol. Wrth i gyfrolau parciau a gerddi hanesyddol y sir gael eu llunio, gofynnir i awdurdodau cynllunio ymgynghori â Cadw ar geisiadau cynllunio mewn perthynas â safleoedd Gradd I a 11 a Chymdeithas Hanes Gerddi ar bob parc a gardd ar y Gofrestr."*

## Rhan 3 Archeoleg a'r Broses Gynllunio

### 3.1 Rôl yr Awdurdod Cynllunio

Mae gan awdurdodau lleol nifer o gyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â safleoedd archeolegol a henebion yn eu hardaloedd. Er enghraifft, efallai bod ganddynt olion, adeiladau neu safleoedd pwysig yn eu gofal; efallai eu bod yn caffael henebion ac yn rhoi cymorth grant i'w gwarchod ac yn gallu helpu cyflwyno a rheoli safleoedd hanesyddol sy'n cyfrannu at y dirwedd leol, amwynderau ac economi eu hardal. Mae Archeolegwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn darparu arbenigedd mewn perthynas â'r materion hyn.

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl hanfodol hefyd i ddiogelu'r dreftadaeth archeolegol trwy eu swyddogaethau rheoli datblygiad. Fe fydd yr Awdurdod Cynllunio angen digon o wybodaeth i bwysu a mesur pwysigrwydd yr archeoleg yn erbyn ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen am y datblygiad arfaethedig.

Er mwyn diogelu buddiannau'r Amgylchedd Hanesyddol, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - Rheoli Treftadaeth, y corff rhanbarthol cydnabyddedig sy'n darparu gwasanaethau cynllunio archeolegol proffesiynol. Am fwy o wybodaeth ar yr Ymddiriedolaeth, gweler isod).

Ble mae ceisiadau cynllunio yn effeithio ar henebion cofrestredig, neu eu lleoliadau, fe fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru trwy Cadw, ei isadran Amgylchedd Hanesyddol. (Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 3 2010, Adran 6.5.6.)

### 3.2 Rôl Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed-Rheoli Treftadaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn un o'r pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru, a sefydlwyd yng nghanol y 1970au, fel mudiadau annibynnol ag ymrwymiad i ddeall yr Amgylchedd Hanesyddol, ei reoli, ei amddiffyn a'i gofnodi. Wrth ddarparu'r gwasanaethau cynhwysfawr hyn, rhennir yr Ymddiriedolaeth yn ddau brif adran – Rheoli Treftadaeth a Gwasanaethau Maes.

Darperir gwasanaethau cynllunio cynhwysfawr ar gyfer PCAP gan yr Isadran Rheoli Treftadaeth, a ariennir ar y cyd trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried pob cais cynllunio a ddilyswyd ac a gyflwynwyd yn y Parc Cenedlaethol trwy archwilio'r rhestrau cynllunio wythnosol ac, yn ôl yr angen, mae'n cael gwybodaeth bellach gan yr Awdurdod, cyn ymateb o fewn amserlenni gosodedig i'r adran cynllunio. Mae gwybodaeth a chyngor ar gael hefyd ar gam cyn cyflwyno cais, ar gais. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwybodaeth o Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (gweler isod), sydd, trwy gwestiynu proffesiynol, yn cynnig arweiniad ar b'un ai bod yna ddimensiwn a chyfyngiad potensial ar ddatblygiad. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn darparu cyngor ar y camau sydd angen eu cymryd i amddiffyn buddiannau archeolegol, gan gynnwys darparu briffiau i helpu ymgeisydd i gomisiynu gwaith archeolegol. Ar ran yr Awdurdod, mae'r Ymddiriedolaeth yn dod i gyswllt â swyddogion cynllunio'r Awdurdod, a hefyd gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, gan

gynnwys contractwyr archeolegol, ac mae'n monitro'r holl waith archeolegol sydd ei angen yn y broses gynllunio.

### **3.3 Cael Gwybodaeth a Chyngor ar Gam Cynnar**

Dylai ymgeiswyr roi sylw i ystyriaethau archeolegol a dylent drafod cynlluniau rhagarweiniol gyda'r awdurdod cynllunio ar gam cynnar.

Fel cam cyntaf, wrth baratoi eu cynigion a'u ceisiadau cynllunio, cyngorir ymgeiswyr i gael gwybodaeth a chyngor ar gam cynnar ar yr Amgylchedd Hanesyddol, trwy ymgynghori â'r awdurdod cynllunio a'r Ymddiriedolaeth. Unwaith y caiff cynlluniau manwl eu paratoi ac unwaith y trefnir y cyllid mae'n dod yn fwy anodd ystyried hyblygrwydd a lliniaru archeolegol. Mae datblygwyr sydd heb ystyried materion yr Amgylchedd Hanesyddol ar gam cynnar yn gallu wynebu darganfyddiadau annisgwyl, oedi a chost yn ystod y datblygiad. Teimlir bod rheoli'r risg hwn trwy gael cyngor cynnar yn hanfodol i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio.

Mae Cofnod rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol, a gynhelir gan yr Ymddiriedolaeth, yn cynnwys gwybodaeth ar tua 7,000 o safleoedd archeolegol unigol o fewn PCAP. Mabwysiadwyd y cofnod hwn trwy benderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro at ddibenion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Ar ran yr Awdurdod Cynllunio, ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig gwasanaeth cynghori ar gynllunio rhad ac am ddim i ddarpar ymgeiswyr sydd angen canllawiau cyn cyflwyno cais cynllunio, ar y cynnig ar gyfer eu datblygiad – gweler y manylion cyswllt isod (3.12).

### **3.4 Henebion Cofrestredig a Cadw**

Caiff dros 280 o henebion a safleoedd archeolegol yn y Parc Cenedlaethol amddiffyniad statudol fel Henebion Cofrestredig o dan delerau Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979. Mae'r henebion hyn wedi cwrdd â meini prawf penodol, a ddefnyddir i asesu eu pwysigrwydd cenedlaethol. Fe fydd unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar yr henebion hyn angen caniatâd heneb gofrestredig gan Lywodraeth Cymru ac mewn achosion o'r fath, mae lleoliad heneb, yn ogystal â'r warchodaeth ffisegol, yn ystyriaethau o bwys. Mae unrhyw waith ar Henebion Cofrestredig heb ganiatâd yn drosedd, ac yn agored i erlyniad o dan Ddeddf 1979. Mae caniatâd henebion cofrestredig ar wahân i ganiatâd cynllunio. Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn golygu eich bod yn cael caniatâd heneb gofrestredig, ac nid yw rhoi caniatâd heneb gofrestredig yn golygu eich bod wedi cael caniatâd cynllunio. Ar gyfer safle, sydd wedi'i rhestru a'i gofrestru, mae deddfwriaeth henebion cofrestredig yn cael blaenoriaeth dros ofynion adeilad rhestredig. Yn y rhan fwyaf o achosion, fe fyddai awdurdod cynllunio yn disgwyl i'r caniatâd heneb gofrestredig berthnasol gan Cadw ddod gyda chais cynllunio sy'n effeithio ar heneb gofrestredig.

Yn gyfreithiol, mae gofyn i Adran Cynllunio'r Parc Cenedlaethol ymgynghori â Cadw (sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru) ar unrhyw gais sy'n debygol o effeithio ar heneb gofrestredig neu ei lleoliad. Fel arfer, fe fydd cais cynllunio sy'n cael effaith niweidiol ar heneb gofrestredig, yn cael ei wrthod.

Gellir cael gwybodaeth bellach ar y safleoedd gwarchodedig hyn gan Cadw, gweler Manylion Cyswllt isod (3.12).

### 3.5 Gofynion cyn penderfynu ar geisiadau

Fe fydd yr ymgynghoriadau cynnar, a ddisgrifiwyd uchod, yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i ymgeiswyr sy'n ystyried cyflwyno cais, o sensitifrwydd archeolegol eu safle. Ond, fe fydd yna achlysuron pan nad oes digon o wybodaeth ar gael ar yr adnodd archeolegol potensial ac fe fydd yr awdurdod cynllunio angen gwybodaeth bellach cyn bod modd ystyried y cais yn iawn.

Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 3 (2010), paragraff 6.5.2 a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96, paragraffau 12,13 a 14, yn nodi, ble chredir bod olion pwysig yn bodoli ar safle datblygiad, y dylai ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth bellach ar yr adnodd archeolegol cyn penderfynu ar y cais. Mae hyn yn ofynnol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod wedi ei ddiweddarau'n llwyr ynghylch y potensial archeolegol ac y gellir cytuno ar fesurau lliniaru priodol i ddiogelu buddiannau archeolegol o bwys, os rhoddir caniatâd cynllunio.

Mae'r math o waith archeolegol y gallai fod ei angen cyn penderfynu ar gais, yn amrywiol, ac yn amrywio o asesiad pen bwrdd i werthusiad maes ymwthiol neu gyfuniad o nifer o dechnegau. Mae'r methodolegau asesu hyn yn cael eu disgrifio'n llawn isod.

Pan benderfynir bod angen gwneud gwaith cyn dod i benderfyniad, yna fel arfer mae'r Ymddiriedolaeth, ar ran yr Awdurdod Cynllunio, yn darparu briff i helpu'r ymgeisydd i ddarparu'r wybodaeth archeolegol bellach sydd ei hangen. Mae'r briff yn fframwaith amlinellol o'r sefyllfa archeolegol sy'n gorfod cael sylw, ynghyd ag arwydd o amrediad y gwaith y bydd ei angen. Trwy ddilyn y briff, y gellir ei ddefnyddio fel rhan o broses dendro gystadleuol, fe fydd yr ymgeisydd yn cael sicrwydd bod yr wybodaeth a geir o ganlyniad yn berthnasol ac wedi'i chyfyngu at yr hyn sydd ei hangen yn benodol ar gyfer y prosesau cynllunio.

Ble na chafwyd digon o wybodaeth, efallai y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn penderfynu peidio â chofrestru cais cynllunio, gohirio'r penderfyniad neu wrthod rhoi caniatâd cynllunio.

### 3.6 Gofynion ar ôl penderfynu ar geisiadau

Pan fydd yr Awdurdod Cynllunio yn fodlon fod ganddo ddigon o wybodaeth ar yr Amgylchedd Hanesyddol, fe fydd y cais cynllunio'n gallu mynd yn ei flaen i gael penderfyniad. Ar y cam yma, mae'r Awdurdod Cynllunio, gyda chynghor gan yr Ymddiriedolaeth, yn gallu pwysu a mesur pwysigrwydd perthynol yr adnodd archeolegol yn erbyn ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen am y datblygiad arfaethedig.

Ar y cam hwn, mae yna ddau brif opsiwn, sydd wedi eu nodi ym mharagraffau 17 a 18 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 – *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg*, sy'n agored i'r Awdurdod Cynllunio, sef '*gwarchod ar y safle*' a '*gwarchod trwy gofnodi*'.

### 3.7 Gwarchod olion archeolegol ar y safle

Ble mae datblygiad arfaethedig yn effeithio ar olion archeolegol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, waeth a ydyn nhw'n rhai cofrestredig ai peidio, a'u lleoliadau, fe fydd rhagdybiaeth o blaid eu gwarchod yn ffisegol *ar y safle*, h.y. rhagdybiaeth yn erbyn cynigion a fyddai'n golygu newid yr adnodd yn sylweddol neu'n achosi difrod, neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar leoliad olion gweledol. Yn yr achosion hyn, efallai y byddai'n briodol i'r Awdurdod Cynllunio wrthod ceisiadau cynllunio a fyddai'n cael effaith niweidiol sylweddol ar yr Amgylchedd Hanesyddol.

### 3.8 Lliniaru

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau penodol, efallai y bydd yr Awdurdod Cynllunio angen cytuno ar fesurau lliniaru priodol er mwyn sicrhau bod olion archeolegol pwysig yn cael eu gwarchod *ar y safle*. Bydd ymgeiswyr, felly, yn gallu ystyried mathau o fesurau lliniaru a gynlluniwyd i amddiffyn archeoleg *ar y safle* tra'n galluogi eu datblygiad i fynd yn ei flaen. Polisi'r Awdurdod Cynllunio yw sicrhau bod olion archeolegol yn cael eu gwarchod trwy atebion a dyluniadau peirianeg ar gyfer cadwraeth sympathetig. Er enghraifft, rhoddir anogaeth weithgar i fesurau fel codi lefelau'r llawr neu adeiladu sylfeini sy'n osgoi tarfu ar olion archeolegol yn gyfan gwbl. Mewn achosion eraill, mae modd gwarchod olion archeolegol sensitif yn ffisegol trwy leoliad ardaloedd agored cyhoeddus neu ardaloedd wedi eu tirlunio yn ofalus.

Mae technegau o'r fath yn gallu selio olion archeolegol o dan adeiladau, neu ddylunio tirwedd yn ofalus o fewn ardaloedd datblygiad. Er efallai na fydd yr olion hyn yn hygyrch am y tro, maen nhw, i bob pwrpas, yn cael eu gwarchod ar gyfer y dyfodol, pan fydd technegau archeolegol cloddio a dadansoddiad gwyddonol, heb os, wedi gwella. Yn yr achosion hyn, efallai y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn ceisio sicrwydd y bydd deunydd archeolegol sydd wedi eu claddu yn parhau i fod yn ddiogel ar ôl y datblygiad, trwy weithdrefnau monitor parhaus neu, mewn rhai amgylchiadau, cael gwared ar hawliau datblygu a ganiateir.

Cynghorir ymgeiswyr sy'n bwriadu cadw effaith eu datblygiad ar adnodd archeolegol hysbys i leiafswm, trwy fesurau lliniaru, i geisio cyngor Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn y lle cyntaf.

### 3.9 Gwarchod olion archeolegol trwy gofnodi

Ble gwyddys bod olion sydd o bwysigrwydd llai na chenedlaethol yn bodoli, efallai y bydd yr awdurdod cynllunio yn penderfynu nad ydyw pwysigrwydd yr olion archeolegol yn ddigon, o'u pwysu a'u mesur yn erbyn yr holl ystyriaethau eraill o bwys, gan gynnwys yr angen am ddatblygiad, i gyfiawnhau eu gwarchod yn ffisegol *ar y safle* ac y gall y datblygiad arfaethedig fynd yn ei flaen.

Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yr Awdurdod Cynllunio, trwy osod amodau cynllunio priodol ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio, yn gofyn i'r datblygwr wneud trefniadau boddhaol ar gyfer cloddio, cofnodi, archifo a chyhoeddi'r adnodd archeolegol. Yn gyffredinol, mae'r gwaith cloddio a chofnodi manwl hwn, sy'n aml yn cymryd amser ac yn ddrud, yn opsiwn ail orau a rhaid ei wneud cyn dechrau ar ddatblygiad.

Efallai y bydd amodau eraill, gweler isod yn Atodiad 2, yn gofyn i'r ymgeisydd gofnodi adeiladau cyn dechrau datblygu, ac yn ystod y gwaith datblygu, neu drefnu

cynnal gorchwyl gwylio archeolegol gan archeolegydd proffesiynol yn ystod datblygiad.

Ar ran yr Awdurdod Cynllunio, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried y cynllun archeolegol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, ac os yw'n foddhaol fe fydd yr Awdurdod yn cymeradwyo'r ddogfen yn ysgrifenedig, gan ganiatáu i'r gwaith archeolegol ddechrau. Fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn monitro pob cam o'r gwaith archeolegol i sicrhau cydymffurfiaeth gydag amodau cynllunio ac y cedwir at safonau archeolegol priodol. Pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau'n foddhaol, fe fydd yr awdurdod cynllunio yn gallu rhyddhau'r amod perthnasol.

### **3.10 Amodau Cynllunio**

Pan fydd angen, fe fydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn amddiffyn buddiannau archeolegol trwy gynnwys amodau cynllunio priodol gyda cheisiadau sy'n cael caniatâd. Yn unol â pholisi cenedlaethol, dylai'r amodau hyn gwrdd â'r meini prawf o fod yn angenrheidiol, yn berthnasol i'r cynllunio, yn berthnasol i'r datblygiad a ganiateir, yn gallu cael eu gorfodi, yn fanwl gywir ac yn rhesymol. Ceir rhestr o'r amodau y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio fwyaf aml, sy'n berthnasol i warchod buddiannau'r Amgylchedd Hanesyddol, isod yn Atodiad 2. Gweler isod hefyd am nodiadau cyngor ar sut i fodloni'r amodau hyn a gweithredu rhwymedigaethau cynllunio yn llwyddiannus. Gellir cael cyngor pellach trwy gysylltu â'r Ymddiriedolaeth.

Pan ddangosir bod yr amodau hyn wedi cael eu bodloni'n iawn ac yn llwyr, fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried rhyddhau amodau cynllunio. Mewn achosion ble mae'n glir fod ymgeiswyr heb weithredu gofynion amodau cynllunio, fe fydd yr Awdurdod yn ystyried yr angen i gymryd camau gorfodi.

### **3.11 Monitro**

Ar ran Awdurdod y Parc Cenedlaethol, fel arfer fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn monitro gwaith archeolegol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion cynllunio ac y cedwir safonau archeolegol uchel yn y sir. Fe fydd unrhyw waith archeolegol yn ddarostyngedig i gael ei fonitro, o'r dechrau'n deg a cham cynllunio'r prosiect, i'r gwaith maes a'r prosesau ôl-gloddio, i osod yr archif sy'n ganlyniad mewn ystorfa y cytunwyd arni a'i chyhoeddi'n derfynol.

Fe fydd yr Awdurdod Cynllunio yn cael cyngor gan yr Ymddiriedolaeth ynghylch p'un ai y gellir rhyddhau amodau naill ai'n llwyr neu'n rhannol, wrth i gamau olynol y rhaglen waith archeolegol y cytunwyd arni gael eu cwblhau'n foddhaol.

## Manylion Cyswllt

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed – Rheoli Treftadaeth  
Neuadd y Sir  
Heol Caerfyrddin  
Llandeilo  
Sir Gâr  
SA19 6AF

Rhif Ffôn. 01558 823121  
[info@dyfedarcheoleg.org.uk](mailto:info@dyfedarcheoleg.org.uk)  
[www.dyfedarcheoleg.org.uk](http://www.dyfedarcheoleg.org.uk)

Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Cairew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QQ

Rhif Ffôn: 01443 33 6000  
Ffacs: 01443 33 6001  
E-bost: [Cadw@Wales.gsi.gov.uk](mailto:Cadw@Wales.gsi.gov.uk)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro  
Parc Llanion  
Doc Penfro  
Sir Benfro  
SA72 6DY

Rhif Ffôn: 0845 345 7275

Cyswllt : Peter Crane, Archeolegydd y Parc Cenedlaethol  
Julie Kirk, Swyddog Cynllunio Cynlluniau Datblygu  
Rob Scourfield, Swyddog Gwarchod Adeiladau

[www.pcnpa.org.uk](http://www.pcnpa.org.uk)

## Rhan 4 Atodiad 1 Ystyriaethau wrth wneud Gwaith Archeolegol

### 4.1 Cyfrifoldeb dros Gostau

Mae'n bwysig deall bod gwaith archeolegol, yn enwedig cloddio dwys, yn gallu cymryd amser ac yn gallu bod yn ddrud. Mae cwrdd â'r costau hyn yn gyfrifoldeb ar yr ymgeisydd/datblygwr yn unig. Fel rhan o ofyniad cynllunio, mae'r gwaith hwn yn gallu golygu gwaith maes, ond hefyd dadansoddiad ar ôl y cloddio, archifo a chyhoeddi. Efallai hefyd y bydd costau ynghlwm wrth warchod arteffactau, archifo a storio darganfyddiadau archeolegol a ddadorchuddiwyd.

Oherwydd y costau potensial hyn i ddatblygwyr, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn argymhell y dylai'r rheiny sy'n ceisio am ganiatâd cynllunio geisio cyngor archeolegol ar gam cynnar trwy drafod eu cynigion gyda'r Awdurdod Cynllunio a'r Ymddiriedolaeth. Gyda gwybodaeth dda o faterion yr Amgylchedd Hanesyddol, a dealltwriaeth o'r cyfyngiadau ar gam cynnar wrth ffurfio cynigion ar gyfer y datblygiad, efallai y bydd yr ymgeisydd yn gallu lleihau effaith ariannol tebygol eu datblygiad trwy opsiynau lliniaru, sy'n osgoi unrhyw effaith ar ddeunydd sy'n sensitif yn archeolegol.

### 4.2 Rheoli Ansawdd

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd/datblygwr, neu eu hasiantau, yw comisiynu contractwyr archeolegol i wneud gwaith ar eu rhan, ac fe fydd angen iddyn nhw fod yn fodlon gyda gallu'r contractwr archeolegol a ddewiswyd ganddynt i wneud y gwaith hwn.

Rhaid i staff corff proffesiynol a chymwys, a gydnabyddir yn ffurfiol gan yr Ymddiriedolaeth, cynghorwyr yr Awdurdod Cynllunio, wneud y gwaith archeolegol.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth yn argymhell i'r rheiny sydd angen gwaith archeolegol eu bod yn ystyried manteision comisiynu mudiadau sy'n Fudiadau Archeolegol Cofrestredig gyda'r Sefydliad Archeolegwyr. Fe fydd ymagwedd o'r fath yn rhoi hyder fod yr archeolegwyr sy'n gwneud y gwaith yn dilyn codau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol ac yn ddarostyngedig i sancsiynau proffesiynol llym os ydynt yn eu torri. Mae gwybodaeth bellach ar gynllun Mudiadau Archeolegol Cofrestredig y Sefydliad ar gael ar eu gwefan - gweler y Rhestr o Gysylltiadau Defnyddiol.

Beth bynnag sy'n digwydd, argymhellir bod gan y contractwr archeolegol brofiad priodol a'i fod yn cael ei rheoli gan Aelod o'r Sefydliad Archeolegwyr (MIfA), sy'n cael ei ddilysu'n briodol. Rhaid i'r contractwr archeolegol gadw at God Ymddygiad a Chod Ymarfer Cymeradwy Sefydliad yr Archeolegwyr ar gyfer Rheoleiddio Trefniadau Cytundebol mewn Archeoleg Maes, a gweithio i'r Safonau a'r Canllawiau perthnasol.

Argymhellir hefyd, er budd y rheiny sy'n comisiynu gwaith archeolegol, eu bod yn sicrhau bod gan contractwyr yswiriant digollediad proffesiynol perthnasol neu yswiriant arall.

### 4.3 Sut i ddod o hyd i Contractwr Archeolegol

Er mwyn helpu ymgeiswyr, datblygwyr neu eu hasiantau i sicrhau gwasanaethau contractwyr archeolegol addas, mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu canllawiau pellach ar ei gwefan - [www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk). O'r Adran Rheoli Treftadaeth ar yr Hafan, symudwch at wasanaethau cynllunio a phorwch i lawr i ddod o hyd i'r cyngor

a dolenni at restrau o gontractwyr archeolegol. Os oes angen, mae cyngor diduedd pellach ar gael gan yr Ymddiriedolaeth.

#### **4.4 Olion Hanesyddol**

Pan ddaw olion hanesyddol i'r amlwg o ganlyniad i waith archeolegol, rhaid i ddatblygwyr gadw at ddeddfwriaeth a gweithdrefnau arfer gorau ar gyfer trafod y deunydd sensitif hwn. Pan fyddan nhw'n dod i'r amlwg, rhaid gadael olion hanesyddol ar y safle, wedi eu gorchuddio a'u gwarchod yn sensitif. Ni ddylid caniatáu unrhyw archwiliad pellach a rhaid dweud wrth y Crwner a'r Ymddiriedolaeth leol ar unwaith. Os yw'n hanfodol symud yr olion, rhaid cael trwydded gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn unol ag Adran 25 Deddf Claddu 1857. Ceir y materion hyn, a chyngor pellach, yn Atodiad S3 Canllawiau English Heritage ar Arfer Gorau wrth Drin Olion Hanesyddol a Gloddiwyd o Dir Claddu Cristnogol yn Lloegr [2005].

#### **4.5 Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi**

Efallai y bydd datblygiadau sy'n golygu gwaredu perthi yn dod o dan delerau Rheoliadau Gwrychoedd neu Berthi 1997. Mae'r Rheoliadau hyn yn gofyn am gyflwyno ceisiadau i'r Awdurdod am ganiatâd i waredu perthi. Ceir rhai meini prawf penodol yn y broses benderfynu sy'n golygu ystyried buddiannau archeolegol a hanesyddol. Er enghraifft, efallai bod perthi yn nodweddion archeolegol pwysig ynddynt eu hunain neu'n rhan o heneb.

Yn unol â hyn, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwybodaeth o Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol a chyngor proffesiynol. Ond, mae gofyn i ddatblygwyr safleoedd, sydd efallai angen caniatâd i waredu perth, i gysylltu â'r Parc Cenedlaethol i ddechrau.

#### **4.6 Cofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol**

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys gerddi a pharcldiroedd hanesyddol pwysig, llawer ohonynt wedi eu cynnwys o fewn adran Sir Benfro *Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gan Cadw yn 2002. Diben y Gofrestr yw darparu gwybodaeth a gweithdrefnau ar y safleoedd hyn, er mwyn helpu eu gwarchod a'u hamddiffyn. Dyma bolisi Cynllun Datblygu Lleol (16) Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Ar gyfer ceisiadau cynllunio a allai effeithio ar safleoedd Gradd 1 a 11\*, a'u lleoliadau hanfodol, fe fydd yr Awdurdod yn ceisio cyngor Cadw wrth asesu addasrwydd cynigion. Ar gyfer safleoedd Gradd 11 a safleoedd eraill sydd ddim yn rhai cofrestredig ac sydd o ddiddordeb lleol y, fe fydd barn yr Ymddiriedolaeth, Cymdeithas Hanes Gerddi ac Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru yn cael ystyriaeth lawn.

#### **4.7 Cofrestr Tirweddau Hanesyddol**

Mae Rhannau 2.1 a 2.2 *Cofrestr anstatudol Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru* yn cynnwys gwybodaeth ar dirweddau hanesyddol sydd o ddiddordeb hanesyddol neilltuoel neu arbennig. Cydnabuwyd y tirweddau hyn fel ardaloedd o "*asedau diwylliannol mwyaf gwerthfawr y genedl ac fel rhannau arbennig o'n treftadaeth, sy'n aml yn fregus ac nad oes modd eu cael yn ôl unwaith fyddan nhw wedi mynd*".

### **Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol**

Mae'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Cadw/ICOMOS UK. 1998) yn cydnabod bod tirweddau hanesyddol yn un o asedau diwylliannol mwyaf gwerthfawr Cymru ac yn rhan arbennig o'n treftadaeth sy'n aml yn fregus ac na fyddai modd ei chael yn ôl unwaith fydd wedi mynd. Mae'r rhain yn ardaloedd mawr sy'n cadw tystiolaeth ffisegol o'r gorffennol, o dirweddau amaethyddol a defodol cynhanes i dirweddau diwydiannol y 19eg ganrif. Mae pedwar o'r Tirweddau Cofrestredig hyn yn gorwedd o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

### **Dyfrffordd Aberdaugleddau**

Disgrifir fel '*tir a morlin cymalog a nodedig iawn*,' a cheir sylw arbennig i'r caerau pentir arfordirol niferus o'r Oes Haearn, enwau llefydd Llychlynnaidd a chanoloesol cynnar a bwrdeistrefi cestyll canoloesol yn ogystal â hanes diweddaraf y diwydiannau adeiladu cychod a physgota yn nhrefi Aberdaugleddau a Doc Penfro, a gynlluniwyd.

### **Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi**

Ar y dirwedd o amgylch Tyddewi mae tystiolaeth o ddefnydd tir, defodau a gweithgarwch crefyddol o'r cyfnod cynhanesyddol ymlaen, gan barhau i'r cyfnod canoloesol fel canolfan cwlt Dewi Sant. Caiff ei ddisgrifio yn y Gofrestr fel '*un o'r tirweddau mwyaf arwyddocaol yn ddiwylliannol a'r mwyaf uchel eu parch yn nhirweddau Cymru heddiw*'

### **Ynys Sgomer**

Mae'r Dirwedd Gofrestredig hon yn cynnwys Sgomer, ynghyd ag Ynys y Gwddf a'r Canoldir. Mae Sgomer ei hun yn cynnwys olion helaeth systemau cae o gynhanes ac anheddau cysylltiedig a welir yn y cylchoedd cytiau, tra bod caer bentir o'r Oes Haearn yn goroesi ar y Gwddf.

### **Preseli**

Mae ucheldir agored yr ardal hon, sydd heb ei wella, yn cynnwys palimpset cyfoethog o dirweddau creiriol o gynhanes gyda henebion, llawer ohonyn nhw'n sefyll ar eu fyny, o'r cyfnodau Neolithig, yr Oes Haearn a Rhufeinig-Brydeinig. Yn ychwanegol, mae ganddo'r cysylltiad hanesyddol rhyngwladol bwysig o fod yn ffynhonnell cerrig gleision Côr y Cewri. Yn y cyfnod ôl-Rufeinig gwelwyd ffocws y symudiad mewn anheddiad i'r cymoedd, ble mae nifer o safleoedd eglwysig Cristnogol Cynnar wedi goroesi. Mae dilyniannau caeadleoedd a chronoleg patrwm anheddiad gwasgaredig ffermydd bach yn y troedfrynau yn bwysig i ddeall sut yr oedd yr ucheldiroedd yn cael eu defnyddio gan ffermwyr ar y cyrion, a sut maen nhw'n dal i gael eu defnyddio felly. Mae cyfuniad o gaeadloedd canoloesol ac yn ddiweddarach Seneddol yn bodoli. Mae llwybrau hynafol Bwlch Brynberian a Ffordd Fleming yn nodwedd bwysig arall ar y dirwedd.

### **Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig**

Yn ogystal â'r ardaloedd uchod, mae Tirweddau Cofrestredig yng Nghymru yn cynnwys rhai sydd wedi eu dynodi yn rhai sydd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig. Yn gyffredinol, mae eu harwynebedd yn llai ac mae'r gwahaniaeth "*yn un o raddfa, ac nid ansawdd diddordebau hanesyddol*."\* Mae pump o'r ardaloedd hyn yn gorwedd o fewn Sir Benfro.

### **Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbi**

Tirwedd sydd, yn ôl pob tebyg, wedi cael ei anheddu ers y cyfnod cynhanesyddol hwyrach ac sy'n cynnwys tystiolaeth ar gyfer archeoleg yr eglwys gynnar. Mae'r henebion sydd wedi goroesi yn cynnwys henebion angladdol Neolithig; bryngaerau a

systemau cae o'r Oes Haearn; safleoedd a henebion Cristnogol cynnar ac anheddau canoloesol. Ni welodd yr ardal hon ad-drefnu'r dirwedd yn ystod y cyfnod Normanaidd ac mae'n dal i fod "*yn hollol Gymreig ei chymeriad*".

### **Tyrchfeydd Ystagbwl**

Mae amrywiaeth o safleoedd cynhanesyddol yn bodoli yn yr ardal hon, ynghyd â thirwedd archeolegol gladdedig gysylltiedig sydd wedi cael ei chadw'n wych o dan haenau o dywod wedi eu chwythu gan y gwynt. Mae'r gwaddodion yma wedi goroesi o'r cyfnod Mesolithig i'r Oes Haearn/cyfnod Rhufeinig-Brydeinig.

### **Maenorbŷr**

Ardal o anheddiad canoloesol (cartref Gerallt Gymro) sy'n cynnwys goroesiad prin llain-gaeau agored canoloesol cysylltiedig, eu ffiniau wedi eu cadw gan berthi diweddarach. Mae'r ardal hefyd yn cynnwys safleoedd arfordirol Mesolithig, adran o'r Ddyfrffordd – llwybr hynafol gyda henebion defodol ac angladdol cysylltiedig o'r Oes Efydd – a chaerau pentir o'r Oes Haearn.

### **Dyffryn Teifi Isaf**

Mae rhan fechan o'r ardal hon yn gorwedd o fewn y sir. Mae'r ardal gyfan yn cynnwys tystiolaeth o barhad defnydd tir ers yr Oes Efydd. Mae'r olion archeolegol yn cynnwys henebion defodol ac angladdol o'r Oes Efydd; safleoedd eglwysig a seciwlar canoloesol a chanoloesol cynnar (Abaty Llandudoch a Chastell Cilgerran); tai bonedd a safleoedd diwydiannol cynnar.

### **Trefdraeth a Charningli**

Mae cyfoeth o olion archeolegol wedi goroesi yn yr ardal hon gan gynnwys henebion angladdol a defodol o gynhanes, safleoedd amddiffynnol, anheddau a systemau cae. Mae castell, tref a bwrdeistref Trefdraeth yn ffurfio craidd y dirwedd Eingl-Normanaidd a grëwyd gan arglwyddi Fitzmartin Cemais.

Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 3 (paragraff 6.5.23 a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96, paragraff 16) yn nodi bod angen i awdurdodau cynllunio ar gyfer datblygiad, a ystyrir yn un sydd "*o ddigon o raddfa i gael effaith mwy nag effaith leol yn unig ar y dirwedd hanesyddol*", ystyried y Gofrestr. Yn yr amgylchiadau hyn, fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl i ymgeisydd fod wedi asesu effaith ei ddatblygiad ar dirwedd hanesyddol gofrestredig, a bydd yr Awdurdod yn pwysu a mesu hyn yn erbyn ystyriaethau eraill o bwys.

Er mwyn helpu ymgeiswyr sy'n ceisio am ganiatâd cynllunio, mae Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a phedwar Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru wedi paratoi'r *Canllawiau Arfer Da ar Ddefnyddio'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu* (Diwygiwyd 2007). Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Ychwanegiad Technegol - *Asesiad o Arwyddocâd Effaith Datblygiad ar Ardaloedd Tirweddau Hanesyddol, a elwir hefyd yn fethodoleg ASIDOHL*.

---

Mae ASIDOHL yn rhoi arweiniad ar y broses asesu ac ar y camau technegol sydd ynghlwm ag asesu effaith datblygiad ar y tirweddau hanesyddol. I ddechrau, argymhellir bod yr ymgeisydd yn ceisio cyngor yr Ymddiriedolaeth ar b'un ai bod eu datblygiad ar ddigon o raddfa i warantu asesiad ASIDOHL ac ar ba gamau y dylent eu cymryd wrth baratoi eu dogfennau at ddibenion y broses gynllunio.

#### **4.8 Tirweddau Hanesyddol o Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Leol**

Nid yw pob tirwedd hanesyddol yng Nghymru yn cael eu hystyried yn rhai sydd o bwysigrwydd cenedlaethol nac yn cael eu cadw o fewn y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru* ar hyn o bryd. Mae yna lawer o dirweddau eraill sydd o bwysigrwydd rhanbarthol neu leol ac sy'n bwysig am y gwerth hanesyddol, archeolegol, diwylliannol neu gynhenid y maen nhw'n ei gyflwyno i'w cymunedau.

Ble cydnabyddir tirweddau hanesyddol o'r fath ac mae angen Asesiad o Effaith Amgylcheddol, mae'r Awdurdod Cynllunio yn gofyn am asesiad o effaith y datblygiad arfaethedig ar y dirwedd hanesyddol. Mae'r gofyniad hwn yn cael sylw mewn canllawiau ar Reoliadau cenedlaethol yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol 1999 SI 1999 Rhif 293 (Rheoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol) yng Nghymru, ac mae'n cael ei rhoi yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99 *Asesiad o Effaith Amgylcheddol*. Mae paragraff 46 Maen Prawf 2 (c) (viii) yn cyfeirio at yr angen am Asesiad o Effaith Amgylcheddol mewn perthynas â "*thirweddau o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol neu archeolegol*". I ddechrau, mae gofyn i ymgeiswyr ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed - Rheoli Treftadaeth ar b'un ai bod eu datblygiad yn debygol o gael effaith ar dirwedd hanesyddol sydd heb ei chofrestru a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd i asesu'r effaith hwn a'i liniaru.

#### **4.9 Ystyriaethau Amgylcheddol Eraill**

Mae gwaith ar safle archeolegol, a gomisiynwyd gan ymgeisydd cyn penderfynu ar gais neu sy'n rhan o ddatblygiad a ganiatawyd, yn gallu cael effaith ar fuddiannau amgylcheddol eraill, fel cynefinoedd, perthi, dŵr daear, ffawna a blodau ayb. Cyfrifoldeb y rheiny sy'n comisiynu gwaith archeolegol ymwthiol, a'r rheiny sy'n gwneud y gwaith, yw ystyried p'un ai fod unrhyw effeithiau amgylcheddol o ganlyniad i'w gweithgarwch. Gellir cael cyngor pellach ar y materion hyn gan yr awdurdod cynllunio neu'r Ymddiriedolaeth.

## Rhan 5      Atodiad 2   Cyngor technegol

### 5.1      **Gwaith archeolegol sydd ei angen yn y broses gynllunio**

Isod rhestrir y prif fathau o waith archeolegol sydd ei angen fel rhan o'r broses gynllunio. Efallai y bydd angen gwneud y gwaith yma cyn penderfynu ar gais cynllunio neu i gwrdd â gofynion amodau cynllunio ar ôl rhoi caniatad. Rhaid i archeolegwyr proffesiynol wneud yr holl waith archeolegol i Safonau a Chanllawiau cenedlaethol perthnasol Sefydliad yr Archeolegwyr.

Ar ran Awdurdod y Parc Cenedlaethol, fe fydd yr Ymddiriedolaeth, ar gais, yn darparu briffiau dylunio ar gyfer gwaith archeolegol er mwyn sicrhau bod y gwaith a wneir yn cwrdd ag union ofynion y broses gynllunio. Mae'r briffiau hyn yn gallu helpu ymgeiswyr i gomisiynu gwaith archeolegol a darparu rhagofynion manwl neu gynlluniau archwiliadau ysgrifenedig i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gallu argymhell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r rhagofynion ac fe fydd yn monitro gwaith archeolegol o'r dechrau i'r cwblhau, gan gynnwys yr holl ofynion ar gyfer dadansoddi ar ôl cloddio, adneuo'r archif a'i gyhoeddi.

Y canlynol yw'r mathau mwyaf cyffredin o waith archeolegol sydd ei angen yn y broses gynllunio:

### 5.2      **Arfarnu**

**Mae arfarnu yn ddull llai o gynnal asesiad pen bwrdd a'r unig amcan yw darparu ateb deallus i'r cwestiwn p'un ai fod yna ddimensiwn archeolegol i'w ystyried wrth benderfynu ar gais, ac a oes angen eglurhau hyn trwy archwiliad pellach.**

**Fel arfer, mae'r gwaith yn golygu ymgynghoriad cyflym a chwestiynu'r wybodaeth sydd ar gael mewn ffordd broffesiynol, hwylus, gan gynnwys mapiau cynnar a ffotograffau o'r awyr, sydd yng Nghofnod rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol. Efallai hefyd y bydd yr arfarnu yn golygu cynnal arolwg cyflym ar droed dros y safle ac archwilio'r data geodechnegol sydd ar gael.**

### 5.3      **Asesiad pen bwrdd**

Pan fydd rheswm da tros gredu bod safle'r cais â photensial archeolegol sylweddol, ac mae'r wybodaeth yn annigonol ar y pryd, efallai y bydd yr Awdurdod yn dweud wrth yr ymgeisydd bod angen darparu asesiad pen bwrdd cyn penderfynu ar y cais. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, mae'r astudiaeth archeolegol gweddol gyflym hon yn gallu bod yn rhan o Asesiad Effaith Amgylcheddol neu gellir ei chyflwyno fel dogfen ar ei phen ei hun.

Y diffiniad ar gyfer asesiad pen bwrdd yw rhaglen o asesiadau o'r adnodd archeolegol potensial neu wybyddus o fewn ardal neu safle penodol ar dir, yn y parth rhynglanwol neu o dan y dŵr. Mae'n cynnwys coladu gwybodaeth ysgrifenedig, graffig, ffotograffig ac electronig sydd eisoes yn bodoli er mwyn adnabod cymeriad, graddau, ansawdd a gwerth tebygol yr adnodd archeolegol hysbys neu botensial mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol fel sy'n briodol.

Dylai'r asesiad pen bwrdd arwain at un neu fwy o'r opsiynau canlynol:

- Ffurfio strategaeth i sicrhau y caiff yr adnodd ei gofnodi, ei warchod neu ei reoli.
- Ffurfio strategaeth ar gyfer archwiliad pellach, boed yn ymwthiol ai peidio, ble nad ydyw cymeriad a gwerth yr adnodd wedi ei ddiffinio'n ddigonol i ganiatáu dyfeisio strategaeth liniaru neu ymateb arall
- Ffurfio cynnig ar gyfer archwiliad archeolegol pellach o fewn rhaglen ymchwil.

#### **5.4 Archwilio Gwrthgloddiau**

Mewn ardaloedd o dir amaethyddol sydd heb fod yn ddarostyngedig i aredig dwys, efallai y bydd olion archeolegol yn goroesi fel gwrthgloddiau. Fel arfer, fe fydd arolygu'r safleoedd hyn, sydd yn aml efallai ond â nodweddion bas ar yr arwyneb wedi goroesi, yn golygu defnyddio archeolegwyr cymwys sy'n defnyddio offer arolygu electronig i gofnodi'r gwrthgloddiau. O'r wybodaeth a geir o ganlyniad, fe fydd cynlluniau manwl yn cael eu cynhyrchu, a fydd yn cael eu hystyried gan yr awdurdod cynllunio wrth benderfynu ar geisiadau.

#### **5.5 Synhwyro o bell**

Gellir canfod gweithgarwch dynol wedi ei gladdu trwy ddulliau anymwthiol amrywiaeth o fethodolegau ac offer gwyddonol. Y prif fathau o arolygu geoffisegol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yw tueddiadau magnetig, arolwg magnetomedr, arolwg o ymwrthedd y ddaear, gadiometrau anwedd cesiwm, radar sy'n treiddio i'r ddaear, ffugadraniad a sleisiau amser ac achwiliad electromagnetig.

Mae amodau daearegol sy'n benodol i safle yn gallu cael dylanwad sylweddol ar ansawdd canlyniadau arolygon o'r fath, ac yn aml gellir penderfynu ar y math o arolwg sy'n berthnasol yn yr amgylchiadau dim ond ar ôl profi methodolegau yn gyhwynnol.

Yn aml, mae'r gwaith hwn yn gallu dod cyn gwerthusiad maes oherwydd mae canlyniadau synhwyro o bell yn gallu helpu penderfynu ar y rhesymeg ar gyfer y nifer o ffosydd prawf y gallai fod eu hangen, a'u lleoliad. Mae'n annhebygol y bydd synhwyro o bell ar ei ben ei hun yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar adnodd archeolegol. Heb os, fe fydd angen profi canlyniadau'r arolygon anymwthiol hyn trwy broses ffisegol cloddiad prawf.

#### **5.6 Gwerthusiad Maes**

Mae angen gwerthusiad maes pan fydd gan yr awdurdod cynllunio rheswm da dros ystyried bod yna adnodd archeolegol pwysig yn bresennol, efallai fel nodwedd wedi ei gladdu, ar safle cais. Fel arfer, mae gwerthusiad yn rhaglen gyfyngedig o waith maes ymwthiol, sy'n penderfynu'n fuan ar bresenoldeb neu absenoldeb nodweddion archeolegol ac yn caniatáu asesiad o'u gwerth perthynol mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol fel sy'n briodol. Fe fydd y rhaglen waith yn arwain at baratoi adroddiad ac archif trefnus.

Mewn rhai amgylchiadau, fe fydd y math hwn o werthusiad ffisegol neu ymwthiol yn dilyn rhaglen o waith anymwthiol fel cerdded y maes, archwilio gwrthgloddiau neu geoffiseg.

Fel arfer, mae elfen ymwthiol y gwaith yn golygu creu ffosydd prawf cyflym trwy gloddiad mecanyddol wedi'i oruchwylio gan archeolegydd, gan ddefnyddio peiriant

gyda bwced heb ddannedd. Rhaid cytuno ar y nifer o ffosydd o'r fath, eu lleoliad a'r rhesymeg y tu ôl iddynt, gyda'r awdurdod cynllunio a'r Ymddiriedolaeth, cyn dechrau ar y gwaith. Rhaid glanhau ardaloedd y gwerthusiad i safon briodol i brofi presenoldeb neu absenoldeb nodweddion archeolegol ac i benderfynu ar eu pwysigrwydd perthynol. Ym mhob ardal, rhaid cloddio isafswm o nodweddion archeolegol, i esbonio cymeriad, dosbarthiad, graddau, dyddiad a phwysigrwydd yr olion archeolegol. Ymhob ardal, ceir digon o gloddiaid i sicrhau bod yr haenlinau naturiol yn cael eu cyrraedd a'u profi. Os nad oes modd cloddio isbridd naturiol â llaw am resymau diogelwch, gellir darogan â llaw i geisio asesu cyfanswm dyfnder dyddodion haenedig o fewn pob ardal.

Dylid cyflwyno'r adroddiad a gynhyrchir i'r awdurdod cynllunio fel gwybodaeth bellach i fwydo'r broses gynllunio.

### **5.7 Cofnodi Adeiladau**

Cyn dechrau addasu adeiladau sy'n sefyll ac sydd o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol, gan gynnwys adeiladau rhestredig, fe fydd yr Awdurdod angen gwaith cofnodi adeiladau priodol cyn dechrau ar unrhyw waith datblygu. Fel arfer, gofynnir am y gwaith cofnodi hwn trwy gynnwys amodau cynllunio addas - gweler 5.10 isod. Gan fod sawl math a lefel i waith cofnodi adeiladau, yn amrywio o arolwg adeiladu manwl i ffotograffiaeth ddigidol, dylid cael cyngor gan yr Ymddiriedolaeth, a fydd yn gallu argymhell dull o gofnodi sy'n addas i'r amgylchiadau ac i safonau cenedlaethol.

### **5.8 Gorchwyl Gwyllo**

Fel arfer, cynhelir gorchwyl gwyllo archeolegol yn ystod gwaith datblygu a gymeradwywyd, at ddiben arsylwi, cloddio a chofnodi olion archeolegol sy'n dod i'r golwg yn ystod gweithrediadau fel gwaredu uwchbridd, torri ffosydd sylfaen neu dirlunio. Mae'r gwaith yn gofyn am bresenoldeb archeolegydd proffesiynol, y bydd angen iddo fod yn bresennol ar y safle i gynnal gorchwyl gwyllo arddwys neu ysbeidiol, a fydd wedi cael ei ddisgrifio mewn rhagofynion manwl.

Dylai datblygwyr ystyried goblygiadau gwaith gorchwyl gwyllo, sy'n arwain at ddarganfyddiad olion archeolegol sylweddol. Dylid cyflwyno mesurau wrth gefn i gwrdd ag unrhyw amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld, sy'n gallu gohirio'r gwaith ac arwain at gostau. Ble mae olion o'r fath yn dod i'r amlwg yn annisgwyl, fe fydd yr archeolegydd sy'n gwyllo angen cysylltu â'r Ymddiriedolaeth am gyngor pellach. Tra bod yr ymgynghoriad hwn yn cymryd lle, fel arfer ni fydd y gwaith datblygu sy'n cael effaith uniongyrchol ar yr adnodd archeolegol yn cael dechrau hyd nes bod trefniadau mewn lle ar gyfer cofnodi archeolegol priodol. Fe fydd yr Awdurdod Cynllunio angen adroddiad ar waith y gorchwyl gwyllo, boed â chanlyniadau positif neu negyddol.

### **5.9 Cloddiaid Llawn**

Fel arfer, mae angen cloddiaid archeolegol llawn, neu 'warchod trwy gofnodi' ble nad oes unrhyw fath arall o liniaru wedi profi'n ymarferol. Mae'n golygu cloddiaid stratigraffig manwl a gofalus a gwaith cofnodi dyddodion archeolegol gan archeolegwyr proffesiynol o fewn ardal benodol. Gwneir y gwaith gydag amcanion ymchwil wedi eu diffinio, ac mewn ffordd reoledig, fel arfer, ac mae'n llesol cyn dechrau'r rhaglen o waith datblygu. Fe fydd y cloddiaid yn archwilio, cofnodi a dehongli dyddodion nodweddion a strwythurau archeolegol a, fel sy'n briodol, yn adfer arteffactau, ecoffactau ac olion eraill. Caiff y cofnodion a wneir, a'r gwrthrychau

a gesglir, yn ystod gwaith maes, eu hastudio, a chyhoeddir canlyniadau'r astudiaeth honno mewn manylder sy'n addas i gynllun y prosiect, a gytunwyd gyda'r awdurdod cynllunio.

#### **5.10 Amodau Cynllunio Safonol a chyngor ar eu gweithredu**

Isod, ceir rhestr o'r adnoddau cynllunio perthnasol mwyaf cyffredin sy'n berthnasol i warchod buddiannau'r Amgylchedd Hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac efallai yr ystyrir amodau eraill mewn amgylchiadau penodol. Rhoddir cyngor pellach isod hefyd ar sut i weithredu gofynion yr amodau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau'n gyfreithiol gan yr awdurdod cynllunio. Os oes angen gwybodaeth bellach, fe all ymgeiswyr hefyd gysylltu'n uniongyrchol â'r Ymddiriedolaeth.

##### **5.10A Amod Gorchwyl Gwyllo**

***Dylai'r datblygwr sicrhau bod archeolegydd â chymwysterau addas yn bresennol tra'n gwneud unrhyw waith yn y tir i ddatblygu'r ardal, fel bod modd cynnal gorchwyl gwyllo archeolegol. Cynhelir y gorchwyl gwyllo archeolegol i'r safonau a osodir gan Sefydliad Archeolegwyr Maes. Fe fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael gwybod yn ysgrifenedig, o leiaf pythefnos cyn dechrau'r datblygiad, beth yw enw'r archeolegydd dan sylw.***

**Rheswm – sicrhau bod unrhyw ddeunydd archeolegol sy'n cael ei ddadorchuddio yn ystod datblygiad yn cael ei adfer a'i gofnodi'n briodol.**

##### ***Nodyn cyngor***

Ceir diffiniad safonol ar gyfer gorchwyl gwyllo archeolegol yn y geirfa, isod. Mae'r amod safonol hwn yn gofyn i ymgeiswyr ddweud wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol beth yw enw'r archeolegydd proffesiynol y maen nhw wedi ei ddewis i gynnal gorchwyl gwyllo archeolegol ar eu rhan. Fe fydd yr Awdurdod, a fydd yn gofyn am o leiaf pythefnos o rybudd cyn dechrau'r datblygiad, yn disgwyl i'r gwaith gael ei wneud i Safon a Chanllawiau perthnasol Sefydliad yr Archeolegwyr Maes - gweler 5.12. Ar ran yr Awdurdod Cynllunio, mae'r Ymddiriedolaeth yn gallu rhoi briff generig i'r ymgeisydd ar gyfer gorchwyl gwyllo. Yn unrhyw achos, dylai'r contractwr archeolegol y mae'r ymgeisydd wedi ei ddewis gyflwyno manyleb fanwl, wedi'i ei theilwra i amgylchiadau penodol y datblygiad, i gael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Mae gorchwyl gwyllo archeolegol yn gallu arwain at ddarn o waith cyfyngedig iawn os gwelir bod presenoldeb archeolegol yn negyddol. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr/datblygwyr fod yn ymwybodol fod gorchwyl gwyllo yn gallu arwain at ddarganfyddiad archeolegol sylweddol mewn amgylchiadau prin, gan achosi oedi a chostau nad oedd modd eu rhagweld. Yn yr amgylchiadau hyn, argymhellir bod mesurau wrth gefn mewn lle cyn gwneud gwaith y gorchwyl gwyllo.

##### **5.10B Amod negyddol neu cyn-dechrau**

***Ni chaiff unrhyw waith datblygu gymryd lle hyd nes bod yr ymgeisydd, neu ei asiantau neu olynwyr mewn teitl, wedi sicrhau gweithrediad rhaglen o waith archeolegol yn unol â chynllun archwilio ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd ac a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.***

**Rheswm – gwarchod safleoedd archeolegol trwy fesurau lliniaru a sicrhau y gwneir gwaith archeolegol hyd at safon dderbyniol (Ar sail Adran 23 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96)**

#### ***Nodyn cyngor***

Mae'r amod negyddol hwn angen i'r ymgeisydd geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer rhaglen o waith archeolegol fel y cynigiwyd yn y cynllun archwilio ysgrifenedig. Rhaid cael y gymeradwyaeth hon cyn dechrau ar ddatblygiad. Yn ei ymateb cychwynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, fel arfer fe fydd yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi canllawiau ar y gofynion hyn, sy'n gallu bod yn amrywiol. Argymhellir y dylai'r ymgeiswyr, neu'r contractwyr archeolegol a ddewiswyd ganddynt, gysylltu â'r Ymddiriedolaeth am gyngor pellach ar baratoi cynllun archwilio ysgrifenedig. Rhaid gwneud yr holl waith archeolegol i Safon a Chanllawiau perthnasol Sefydliad yr Archeolegwyr.

### **5.10C Amod Dylunio Sylfeini**

***Ni chaiff unrhyw ddatblygiad gymryd lle hyd nes y cymeradwyir cynllun manwl yn dangos sgôp a threfniadau cynllun sylfeini ac unrhyw wrthgloddiau newydd, a allai gael effaith ar olion archeolegol, yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, ac fe fydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro gan yr awdurdod.***

**Rheswm - Sicrhau nad oes unrhyw sylfeini yn tarfu ar olion archeolegol neu'n eu difrodi ond eu bod, ble'n briodol, yn cael eu gwarchod ar y safle.**

#### ***Nodyn cyngor***

Er mwyn amddiffyn olion archeolegol pwysig *ar y safle* mae dylunio sylfeini yn briodol, er enghraifft defnyddio slab concrit, yn gallu bod yn ffactor pwysig wrth liniaru. Mae datrysiadau peirianeg o'r fath sy'n gwarchod, yn gallu gwarchod haenlinau archeolegol pwysig sydd wedi eu claddu tra'n galluogi datblygiad a ganiateir i fynd yn ei flaen. Fodd bynnag, rhaid ystyried pob achos ar sail ei rhinweddau ac argymhellir bod cyngor yn cael ei geisio gan yr Ymddiriedolaeth yn gynnar wrth ystyried y fethodoleg liniaru hon.

### **5.10D Amodau Cofnodi Adeiladau**

***Ni wneir unrhyw waith hyd nes y cytunwyd ar weithrediad rhaglen briodol o waith cofnodi adeiladau a dadansoddi, gyda'r awdurdod cynllunio lleol, i'w wneud gan arbenigwr sy'n dderbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol ac yn unol â briff ysgrifenedig a manylebau manwl y cytunwyd arnynt.***

A

***Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes y cynhelir arolwg ffotograffig priodol o'r adeiladau sydd ar y safle ar y pryd, yn unol â manylion i'w cyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo. Dylid gosod y ffotograffau a dynnir gyda Chofnod Rhanbarthol yr Amgylchedd Hanesyddol, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed-Rheoli Treftadaeth.***

#### ***Nodyn cyngor***

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys llawer o adeiladau sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisiau er mwyn eu gwarchod. Rhestrir llawer o'r adeiladau hyn o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac felly maen

nhw'n cael eu hamddiffyn yn statudol. Fodd bynnag, mae yna lawer mwy heb eu rhestru ond sydd o bwysigrwydd rhanbarthol neu leol gyda gwerth hanesyddol pensaernïol, traddodiadol neu gynhenid o fewn eu cymunedau. Ar gyfer yr adeiladau hyn, boed yn drefol neu'n wledig, mae'n addas iddynt gael eu cofnodi cyn dechrau ar unrhyw ddatblygiad a fydd yn newid ffurf neu gymeriad yr adeilad. Efallai hefyd y bydd gofyn i archeolegydd neu arbenigwr arall fod yn bresennol yn ystod datblygiadau i gofnodi darganfyddiadau pwysig.

Fe fydd lefel y cofnodi sydd ei angen yn amrywio yn ôl amgylchiadau penodol ac, i ddechrau, argymhellir bod ymgeiswyr yn cysylltu â'r Ymddiriedolaeth i gael cyngor ar ba lefel cofnodi sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau.

#### **5.10E Amod Cloddio Archeolegol**

***Cyn dechrau ar unrhyw waith adeiladu yn yr ardal a nodir, fe fydd yr ymgeisydd yn cyflwyno rhaglen fanwl o gloddiadau archeolegol, cofnodi a chyhoeddi ac fe fydd yn cael ei chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fe fydd y gwaith yn cael ei wneud i Safonau a Chanllawiau Cloddio Archeolegol Sefydliad yr Archeolegwyr.***

**Rheswm - sicrhau y gwneir cofnod proffesiynol llawn cyn dymchwel yr adnodd archeolegol a bod trefniadau addas mewn lle i sicrhau bod yr holl ofynion ar ôl y cloddio yn cael eu cyflawni i safonau y cytunwyd arnynt.**

Mewn amgylchiadau ble profwyd nad yw dulliau eraill o liniaru sy'n sicrhau gwarchodaeth ar y safle yn bosib, polisi Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw bod datblygwyr yn gwneud trefniadau addas, sy'n rhwymo, ar gyfer cloddio, cofnodi a chyhoeddi'r olion archeolegol cyn eu dymchwel.

Bwriad yr amod hwn yw sicrhau bod yna gytundeb mewn lle ar gyfer y gwaith archeolegol hwn, y mae'n rhaid ei gyflawni cyn dechrau ar y datblygiad. Rhaid i'r gwaith gwrdd â Safon a Chanllawiau Cloddio Archeolegol Sefydliad yr Archeolegwyr, a rhaid iddo fod yn destun Cynllun Prosiect y cytunwyd arno, wedi ei baratoi fel arfer gan gcontractwr archeolegol o ddewis y datblygwr. Mae cloddio archeolegol yn gallu cymryd amser ac yn gallu bod yn waith drud, a chynghorir datblygwyr i gysylltu â'r Ymddiriedolaeth am gyngor pellach.

#### **5.11 Trefniadau Monitro**

Yn gyffredinol, gellir crynhoi dibenion gwaith monitro gan yr archeolegydd cynllunio archeolegol rhanbarthol ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol, fel a ganlyn: -

- *Sicrhau y cynhelir safonau archeolegol uchel ac arfer gorau ar sail y Safonau a'r Canllawiau a gyhoeddir gan Sefydliad yr Archeolegwyr Maes.*
- *Sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a gofynion cynllunio.*
- *Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r briff a ddarperir gan yr archeolegwyr cynllunio a'r Rhagofynion a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd i gael cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol.*
- *Sicrhau perthnasedd yr wybodaeth bellach, a geir o ganlyniad i'r gwaith, i'r broses gynllunio barhaus.*

- *Sicrhau bod unrhyw argymhellion gan y contractwr archeolegol yn rhesymol mewn telerau cynllunio.*
- *Sicrhau bod unrhyw argymhellion pellach sy'n deillio o'r gwaith a wneir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gan Rheoli Treftadaeth Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, yn seiliedig ar wybodaeth fanwl ac yn rhesymol mewn telerau cynllunio.*
- *Helpu ffurfio strategaeth liniaru archeolegol, yn ôl yr angen, a allai amddiffyn yr adnodd archeolegol tra'n galluogi'r datblygiad a ganiateir.*
- *Sicrhau cydymffurfiaeth gydag amodau cynllunio a'u cyflawni'n foddhaol.*

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud gwaith monitro ar ran Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Fe fydd unrhyw waith archeolegol sy'n cael ei wneud o fewn y broses gynllunio, yn cael ei fonitro o ddechrau'r prosiect a'r gwaith maes i adneuo archif a chyhoeddiad terfynol sy'n ganlyniad i'r gwaith.

Ble mae angen gwerthusiad maes archeolegol i bennu ymlaen llaw, fe fydd yr Ymddiriedolaeth yn ymweld â'r safle i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn cydymffurfio â'r rhagofynion y cytunwyd arnynt ac yn berthnasol i'r broses gynllunio sy'n parhau. Felly, fe fydd yr Ymddiriedolaeth angen rhybudd ynghylch y dyddiad cychwyn, yr amserlen a ragwelir a chopi o Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch, wedi eu cyflwyno iddynt heb fod yn llai na 5 diwrnod gwaith cyn dechrau ar y gwaith.

## 5.12 Rhestr o gysylltiadau defnyddiol eraill

| Mudiad                                                            | Cyfeiriad                                                                         | Rhif Ffôn     | Gwefan                                                               |
|-------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------|---------------|----------------------------------------------------------------------|
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru                                           | Prif Swyddfa - Bangor<br>Maes-y-Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd LL57 2DW | 0845 1306229  | <a href="http://www.ccw.gov.uk">www.ccw.gov.uk</a>                   |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru                                 | Plas Crug, Aberystwyth, SY23 1NJ                                                  | 01970 621200  | <a href="mailto:nmr.wales@rcahmw.gov.uk">nmr.wales@rcahmw.gov.uk</a> |
| Archifau Sir Benfro                                               | Y Castell, Hwlfordd, SA61 2EF                                                     | 01437 763707  | <a href="http://www.sir-benfro.gov.uk">www.sir-benfro.gov.uk</a>     |
| Sefydliad Archeolegwyr Maes/The Institute of Field Archaeologists | SHES Whiteknights University of Reading PO Box 227 Reading RG6 6AB                | 0118 378 6446 | <a href="http://www.archaeologists.net">www.archaeologists.net</a>   |
| Cymdeithas Swyddogion Archeolegol Llywodraeth Leol                | Gweler y wefan am fanylion cyswllt                                                | 019755 64071  | <a href="mailto:admin@algao.org.uk">admin@algao.org.uk</a>           |

## Llyfryddiaeth Ddethol

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cynllun Datblygu Lleol, ayb

Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 3, Gorffennaf 2010

Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979

Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96. *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg*

Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96. *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.*

Cofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru 1993 a 1998

Canllawiau Arfer Da wrth Ddefnyddio'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu. Cadw 2006

Cofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Rhan 1: Parciau a Gerddi: Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro. Cadw 2002.

Arolwg Tref Caerfyrddin. Adroddiad Archaeoleg Cambria ar gyfer Cyngor Sir Gâr a Cadw 2006

Cookson, N; Archaeological Heritage Law. 2000

Pugh-Smith, J and Samuels J; Archaeology in Law. 1996

Mae'r canlynol yn ddogfennau perthnasol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Archeolegwyr Maes:

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Asesiad Pen Bwrdd Archeolegol.

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Gwerthusiad Maes Archeolegol.

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Cloddio Archeolegol.

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Gorchwyl Gwyllo Archeolegol.

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Archwiliad Archeolegol a Chofnodi Adeiladau a Strwythurau sy'n Sefyll.

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Casglu, Dogfennu, Gwarchod ac Ymchwilio Deunyddiau Archeolegol.

Safonau a Chanllawiau ar gyfer Casglu, Dogfennu, Gwarchod ac Ymchwilio i Arteffactau Archeolegol a'r Amgylchedd.

Mae gan Sefydliad Archeolegwyr Maes is-ddeddfau hefyd sy'n cynnwys:

Cod Ymddygiad.

Cod Arferion Cymeradwy ar gyfer Rheoleiddio Trefniadau Cytundebol mewn Archeoleg Maes.

## Geirfa

### Ar ôl y Canol Oesoedd

Y cyfnod rhwng 1485 a 1900 OC.

### Archif

Casgliad trefnus o bob dogfen ac arteffact o brosiect archeolegol, y dylid ei adneuo mewn storfa gyhoeddus wedi gorffen y gwaith, er enghraifft mewn amgueddfa leol.

### Arfarnu

Mae arfarnu yn rhagchwiliad strategol o'r safle a'r cofnodion i weld os oes dimensiwn archeolegol potensial i gynnig ar gyfer datblygiad, sydd angen eglurhad pellach.

### Asesiad Risg

Dogfen a baratoir i gwrdd â gofynion *Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992* i asesu pob risg i iechyd a diogelwch cyflogedigion, ac eraill, sy'n codi o weithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith.

### Asesu

Mae asesiad pen bwrdd yn ystyriaeth fanwl o'r adnodd archeolegol hysbys neu botensial o fewn ardal neu safle penodol (ar y tir, yn y parth rhynglanwol neu o dan y dŵr), sy'n cynnwys coladu gwybodaeth ysgrifenedig a graffig sydd eisoes yn bodoli er mwyn adnabod cymeriad, graddau, ansawdd a gwerth tebygol yr adnodd archeolegol hysbys neu botensial, mewn cyd-destun mor lleol, rhanbarthol neu genedlaethol â phosib.

### Briff

Fframwaith amlinellol o'r sefyllfa archeolegol sy'n gorfod cael sylw, ynghyd ag awgrym o sgôp y gwaith y bydd ei angen.

### Cadw

Isadran Llywodraeth Cymru yw Cadw, ac mae'n gyfrifol am y materion cynllunio sy'n effeithio ar henebion ac adeiladau sydd wedi eu hamddiffyn yn statudol. Maen nhw hefyd yn rhoi cymorth grant ar gyfer atgyweiriadau i adeiladau hanesyddol a henebion, ac yn rheoli henebion sydd yng ngofal uniongyrchol y Wladwriaeth.

### Canol Oesoedd Cynnar

Y cyfnod ar ôl chwalu rheolaeth Rufeinig a'r goresgyniad Normanaidd (tua 410 i 1066 OC).

### Canoloesol

Y cyfnod ar ôl goresgyniad y Normaniaid a ddaeth i ben mewn enw ym Mrwydr Bosworth, a dechrau teyrnasiad Harri'r VII (1066 i 1485 OC).

### CGC

Cyfeirnod Grid Cenedlaethol, neu yn Saesneg, NGR – National Grid Reference.

### **Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol**

Cofnod o safleoedd hysbys sydd o ddiddordeb archeolegol a hanesyddol, a gwybodaeth gysylltiedig arall, mewn ardal benodol. Yn ne orllewin Cymru, mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed – Rheoli Treftadaeth yn rheoli dros 76,000 o gofnodion ar hyn o bryd.

### **Cofnod Safleoedd a Henebion**

Term a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol.

### **Contractwr Archeolegol**

Unigolyn â chymwysterau proffesiynol neu fudiad sydd â staff archeolegol sydd â chymwysterau proffesiynol, sy'n gallu cynnig triniaeth addas a boddhaol ar gyfer yr adnodd archeolegol, a gedwir gan y datblygwr i wneud gwaith archeolegol naill ai cyn cyflwyno cais cynllunio neu fel un o ofynion y broses gynllunio.

### **Curadur Archeolegol**

Person, neu fudiad, sy'n gyfrifol am warchod a rheoli tystiolaeth archeolegol trwy rinwedd dyletswyddau swyddogol neu statudol. Yng Nghymru, y cynghorwyr archeolegol i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yw Isadrannau Rheoli Treftadaeth yr Ymddiriedolaethau Archeolegol Rhanbarthol, pob un yn gweithio i *God Ymarfer Curaduron* Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru. Mae Isadran Rheoli Treftadaeth Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn darparu gwasanaethau cynllunio archeolegol ar gyfer pum Awdurdod Unedol yn ne orllewin Cymru

### **Oes Efydd**

Rhaniad cronolegol yn y cyfnod cynhanesyddol, sy'n gweld cyflwyniad copr a defnydd helaeth o efydd ar gyfer arfau, gemwaith ayb. Ym Mhrydain mae wedi cael dyddiad o rwng tua 2300 a 700 BC.

### **Gorchwyl Gwyllo**

Diffinnir gorchwyl gwyllo archeolegol fel rhaglen o arsylwi, archwilio a chofnodi a gynhelir yn ystod unrhyw weithrediad a wneir am resymau sydd ddim yn ymwneud ag archeoleg, o fewn ardal neu safle penodol, ble mae yna bosibilrwydd y gellir amharu ar ddyddodion archeolegol neu eu difetha. Fe fydd y rhaglen waith yn arwain at baratoi adroddiad ac archif trefnus.

### **Gwerthusiad**

Fel arfer, mae gwerthusiad yn rhaglen gyfyngedig o waith maes ymwthiol sy'n pennu presenoldeb neu absenoldeb nodweddion, strwythurau, dyddodion, arteffactau neu ecoffactau archeolegol o fewn ardal neu safle penodol. Os oes olion archeolegol o'r fath yn bresennol, mae gwerthusiad maes yn diffinio eu cymeriad, eu graddau, eu hansawdd a'u gwarchodaeth, ac yn caniatáu asesiad o'u gwerth perthynol mewn cyd-destun mor lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol â phosib. Fe fydd y rhaglen waith yn arwain at baratoi adroddiad ac archif trefnus. Efallai y daw rhaglen o waith anymwthiol cyn y gwaith hwn, fel cerdded y maes, archwilio gwrthgloddiau neu geoffiseg.

## **Manyleb**

Rhestr ysgrifenedig o waith sydd ei angen ar gyfer prosiect penodol (gan guradur, archeolegydd cynllunio neu gleient), a nodir mewn digon o fanylder fel bod modd ei fesur, ei weithredu a'i fonitro. Fel arfer, fe'i paratwir gan gontractwr archeolegol a chytunir arno gyda'r archeolegydd cynllunio perthnasol.

## **Mesolithig**

Rhaniad cronolegol yn y cyfnod cynhanesyddol o'r cyfnod o ddiwedd yr oes ia diwethaf i gyflwyniad ffermio. Y dyddiad a roddir yw rhwng tua 10,000 a tua 4,000 CC.

## **Mesur Amddiffyn Treftadaeth**

Yn 2008 cynhyrchwyd Mesur Amddiffyn Treftadaeth draft gan DCMS a Cadw i ddelio gyda Chymru a Lloegr. Y prif ddiben oedd uno'r systemau dynodi a gwarchod treftadaeth. Er nad yw'r Mesur hwn wedi cael ei ddeddfu eto, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i weithio ar nifer o gamau gweithredu a fydd o fudd i'r Amgylchedd Hanesyddol.

Mae'r camau hyn yn cynnwys:

- \* Cyhoeddi Datganiad Strategol y Gweinidog dros Dreftadaeth ar yr Amgylchedd Hanesyddol, a Chynllun Gweithredu, yn 2009.

- \* Cyhoeddi Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol gan Cadw.

- \* Diweddarau canllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys safleoedd Treftadaeth y Byd.

- \* Cyhoeddi Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol ar gynnwys a chynnal a chadw Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol, a sut i ddarparu mynediad i'r cyhoedd atynt.

- \* Fe fydd Cadw yn parhau gyda'i rhaglen gofrestru barhaus ac fe fydd yn ymateb i geisiadau am 'restru yn y fan a'r lle' ar gyfer adeiladau penodol, gan ymgynghori â pherchnogion ac eraill fel y rhagwelir yn y Mesur Amddiffyn Treftadaeth drafft.

- \* Fe fydd Cadw hefyd yn parhau i weithio ar gymeriadu trefol gyda'r nod o gyhoeddi canllawiau penodol ar gymeriadu trefol a thirwedd. Mae hyn yn nodi nodweddion unigryw lleol ac yn offeryn ar gyfer rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy."

## **Modern**

Y cyfnod ers 1900 OC

## **Naturiol**

Term archeolegol ar gyfer daeareg naturiol ar safle, nad oes unrhyw un wedi tarfu arno.

## **Neolithig**

Rhaniad cronolegol yn y cyfnod cynhanesyddol, pan gyflwynwyd amaethyddiaeth ac anifeiliaid domestig i Brydain. Y dyddiad a roddir arno yw rhwng tua 4,000 a tua 2,300 CC.

### **Paleolithig**

Rhaniad cynharaf y cyfnod cynhanes, o'r dystiolaeth gyntaf o wneud offer gan bobl i giliad terfynol ia rhewlifol o Brydain. Y dyddiad a roddir arno yw tua 500,000 i tua 10,000 CC.

### **Rhufeinig**

Y cyfnod pan yr oedd Prydain yn cael ei rheoli gan Rufain tua 45 - 410 OC

### **Rhufeinig-Brydeinig**

Term a ddefnyddir i ddisgrifio ymdoddiad traddodiadau cynhenid hwyr yr Oes Haearn gyda diwylliant Rhufeinig.

### **Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru**

Mae yna 4 Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru, sef Clwyd-Powys, Dyfed, Gwynedd a Morgannwg-Gwent. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaethau rhwng 1974 a 1975 er mwyn gwneud gwaith archeolegol brys yng Nghymru. Maen nhw'n elusennau ond hefyd yn gwmnïau cyfyngedig. Ar hyn o bryd, mae Isadrannau Rheoli Treftadaeth yr Ymddiriedolaethau yn darparu gwasanaethau cynllunio cynhwysfawr ar gyfer Awdurdodau Unedol Cymru.